cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gyfer Addysg Bellach
## Tystiolaeth o Fanylion Personol

Defnyddiwch yr wybodaeth isod i weld pa ddogfennau gwreiddiol y bydd angen i chi eu hanfon atom i gadarnhau eich manylion. Dylech anfon llungopïau o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

**Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn ar y ffurflen gais. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.**

**Prawf o'ch hunaniaeth neu'ch oedran**

**Dylech anfon y canlynol atom:**

- Eich manylion pasbort dilys y Deyrnas Unedig yn unol â'r cais yn adran 5 y ffurflen gais; **neu**
- Eich pasbort **gwreiddiol** dilys nad yw o'r Deyrnas Unedig; **neu**
- Eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu**
- Eich Caniatâ Preswylio Biometrig **gwreiddiol**.

**Os yw'ch enw wedi newid o'r un sy'n ymddangos ar eich dogfennau, bydd angen i chi anfon prawf atom o'r ffaith bod eich enw wedi newid hefyd, a gall hyn fod:**

- Eich tystysgrif briodas **wreiddiol**; **neu**
- Gweithred newid enw **wreiddiol**.

**Prawf o'ch statws priodasol presennol**

**Rydym hefyd angen prawf wedi o'ch statws presennol, anfonwch:**

- eich gorchymyn amodol; **neu**
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws

**Os ydych chi bellach wedi ysgaru, anfonwch:**

- eich archddyfarniad absoliwt; **neu**
- eich gorchymyn terfynol; **neu**
- eich gorchymyn diddymiad; **neu**
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

**Os yw eich partneriaeth sifil wedi ei diddymu, anfonwch:**

- eich gorchymyn amodol; **neu**
- eich gorchymyn terfynol; **neu**
- eich gorchymyn diddymiad; **neu**
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

**Os ydych yn briod**

- eich tystysgrif briodas **wreiddiol**.

**Os ydych mewn partneriaeth sifil**

- eich tystysgrif partneriaeth sifil **wreiddiol**.

**Byw gyda phartner**

Os ydych bellach yn byw gyda phartner ond wedi ysgaru/gwahanu/gweddw neu wedi diddymu eich partneriaeth sifil, anfonwch y dystiolaeth berthnasol a restrir uchod atom.